


Mynegai

Canllaw cyfeirio cyflym

Croeso	2
Dulliau darparu dysgu	2
Cyrraedd at eich unedau dysgu	3
Ein dulliau asesu	4
Adborth	6
Materion Technegol	7
Cwestiynau Cyffredin	8
Rhestr Termau	10
Beth mae ein myfyrwyr yn ei ddweud?	12

Croeso i lawlyfr dysgu ar-lein adran Dysgu Gydol Oes Aberystwyth!



Croeso i'r modiwlau ar-lein newydd a lanswyd gennym. Meddyliom y gallai fod yn ddefnyddiol cael canllaw cryno i ddatrys unrhyw fân drafferthion cychwynol a gallech ddod ar eu traws. Mae'r llawlyfr hwn yn dangos lle gallwch droi i ofyn am wybodaeth i gynorthwyo gydag unrhyw bryderon neu broblemau sydd gennych cyn dechrau ar eich astudiaethau.

Amdanom ni

Yn gyntaf, rydyn ni'n aml yn talfyrru Prifysgol Aberystwyth a defnyddio 'Aber'. Dydyn ni ddim am gymryd yn ganiataol eich bod yn byw'n lleol, ac mae nifer o fyfyrwyr o bob rhan o'r byd yn astudio gyda ni. Fe welwch ein bod yn sôn am 'gyfrifon aber', 'enwau defnyddwyr aber' a llawer o bethau eraill mae'n debyg!

Ein dulliau addysgu

Oherwydd bod gwahanol fathau o ddulliau dysgu yn addas i wahanol raglenni pwnc efallai y cewch brofiad o fwy nag un dull. I gyrraedd at eich rhaglen ar-lein, byddwch angen cyfrifiadur sydd â camera a seinyddion neu glustffonau, Microsoft Word, enw defnyddiwr Prifysgol Aberystwyth a chyfrinair y bydd angen ei ddiweddarau bob blwyddyn. Rhagor o wybodaeth am hynny'n nes ymlaen yn y llyfryn.

Dulliau darparu'r dysgu:

Dysgu wrth eich pwysau: Mae hyn yn gyffredin yn y rhaglenni Celf a Dylunio, y Dyniaethau a Gwyddoniaeth. Byddwch yn gweithio trwy unedau a gweithgareddau yn eich amser eich hun ac ar amser sy'n gyfleus i chi, ond bydd cyfle i ddod ynghyd ar adegau mewn tiwtorialau a gweminarau ar-lein. Rhoddir yr holl gynnwys ar Amgylchedd Dysgu Rhithiol y Brifysgol. Fe fydd angen cyfrinair arnoch ac fe gewch gyfarwyddiadau ynglŷn â gosod hwn. Chi yn unig ddylai wybod beth yw eich cyfrinair.

Mantais y fformat hwn yw eich bod yn gallu cymryd amser gyda'ch astudiaethau a'u cydbwyso ag ymrwymadau eraill bywyd. Mae'r cwrs yn cael ei ddarparu mewn unedau astudio ac yn cynnwys gweithgareddau ysgogol a difyr. Rhoddir cyfle i gysylltu â myfyrwyr eraill trwy gyfrwng byrddau trafod neu flogiau cwrs ac mae sawl fideo o gyfarwyddiadau cam wrth gam i'w cael i'w gwylio trosodd a throsodd. Ar ôl bob uned, byddwch yn cael llif adborth rheolaidd gan eich tiwtor ynglŷn â gwaith a gyflwynwyd.

Pam y mae cyrsiau ar-lein yn hirach?

Mewn rhai achosion, fe sylwch hefyd fod y cyrsiau ar-lein yn para ychydig yn hirach na chysiau wyneb yn wyneb. Mae llawer o fyfyrwyr yn ceisio cydbwyso eu hastudiaethau a'u gwaith felly rydym wedi ychwanegu ychydig amser er mwyn gwella eich profiad dysgu.

Darlithoedd ar-lein byw: Mae hyn yn gyffredin yn y rhaglenni Ieithoedd Modern, a Seicoleg. Yn ystod y dosbarthiadau ar-lein, byddwch yn gallu gofyn cwestiynau, trafod â'ch cyd-fyfyrwyr mewn parau neu grwpiau; hefyd fe gewch gyflwyniadau byw gan eich tiwtor yr un peth ag a fyddai'n digwydd mewn dosbarth arferol.

Dysgu cyfunol:

Yn achos rhai cyrsiau bydd angen ichi ddod i Brifysgol Aberystwyth. Cyrsiau mwy ymarferol fydd y rhain, neu gyrsiau dwys dros benwythnos. Bydd y dull hwn o ddysgu yn cael ei nodi'n glir wrth i ni hysbysebu'r cwrs.

Hefyd bydd cyfeirnod gwahanol gan y cyrsiau hyn. Cwrs ar-lein yw pob modiwl a chanddo gyfeirnod ag L cyn y rhif, ee: CL302 - cwrs celf (CL yn dangos ei fod yn gwrs ar-lein a'r 3 yn nodi pa dymor y caiff ei ddysgu). Trefnir y rhifau eraill yn nhrefn amser ac maent yn dangos faint o gyrsiau a ddarperir y tymor hwnnw. BL fydd cod cyrsiau dysgu cyfunol.

Cyrraedd at eich unedau dysgu, ac agweddau technegol eraill

Defnyddir llwyfan rhithiol diogel o'r enw Blackboard. Rydyn ni'n argymhell defnyddio [Google Chrome](#) neu [Mozilla Firefox](#) wrth ddefnyddio Blackboard ac yn enwedig wrth gyflwyno aseiniadau. Dydyn ni ddim yn argymhell defnyddio Safari, Internet Explorer na Microsoft Edge.

Ar ôl talu a chofrestru, anfonir eich rhif myfyriwr unigryw atoch. Byddwch wedyn yn gallu cael enw defnyddiwr fel myfyriwr a gosod cyfrinair i'ch cyfrif e-bost PA. Mae angen ichi greu cyfrif ar gyfer ein cyrsiau ar-lein er mwyn gallu cyrraedd y llwyfannau perthnasol a gweld yr holl ddeunydd dysgu.

Mae cyfrif yn dod â nifer o fanteision ychwanegol, er enghraifft mynediad i lyfrgell y brifysgol a chyfnodolion ar-lein, cyfrif e-bost a gostyngiadau ym mhrisiau gwasanaethau'r brifysgol.

Mae angen i chi agor y cyfrif heb gymorth gennym ni, oherwydd ei fod yn weithrediad personol a chyfrinachol. Mae'r holl gyfarwyddiadau angenrheidiol i'w gweld yn y fideo isod. Awgrymw'n eich bod yn eistedd wrth eich cyfrifiadur ac agor y dudalen hon ar eich ffôn, sy'n rhyddhau'r cyfrifiadur ichi ddilyn y cyfarwyddiadau a hwyluso'r gweithrediad.

[Sut i gychwyn eich cyfrif myfyriwr PA \(fideo\)](#)

Bydd angen dewis cyfrinair sy'n unigryw ichi. Rhaid cael o leiaf 8 nod. Ni dderbynnir enwau cyffredin. Mae eich diogelwch yn rhywbeth yr ydym yn ei gymryd yn hollol o ddifrif.

Bydd eich Tiwtor yn anfon unrhyw hysbysiadau, sef **Cyhoeddiadau**, atoch gan ddefnyddio eich cyfrif e-bost myfyriwr Aber. Mae'n bwysig felly cadw golwg cyson ar y cyfrif. Rydych chi'n un ohonon ni nawr! Byddwch yn defnyddio'r un enw defnyddiwr a chyfrinair i bob diben arall.

I lywio trwy Blackboard rhaid defnyddio'r llinellau onglog (chevrons). Mae'r rhain yn symud y cynnwys i fyny ac i lawr; mae yno hefyd fotymau sgrolio. Ar y chwith ceir dewislen neu 'gwpwrdd ffeilio' sy'n dangos pob adran sydd ar gael i chi. Gan ddibynnu ar y cwrs, gallech weld **Cyhoeddiadau**, **Gwybodaeth am Fodiwl**, **Cynnwys Cwrs** neu **Deunydd Dysgu**, **Aseu ac Adborth**, **Rhestr Ddarllen**, **Cysylltu**, a **Cymorth i Fyfyrywyr**. Weithiau nid yw'r cwpwrdd ffeilio ar y chwith i'w weld. Mae hyn yn dibynnu sut y mae eich cyfrifiadur wedi'i osod. Er mwyn ei gyrraedd, rhaid gosod y cyrchwr ar ochr chwith y sgrin ac fe ddaw llinellau onglog i'r golwg a fydd yn caniatáu ichi agor y cwpwrdd ffeilio.

[Mae fideo enghreifftiol i'w weld fan hyn](#). Bydd hyn hefyd yn eich llythyr am y cwrs ac mae ar wefan Dysgu Gydol Oes. Awgrymw'n eich bod yn ei wyllo ar ffôn neu dabled sydd nesaf at eich cyfrifiadur.

Meddalwedd tiwtorial

Rydyn ni'n defnyddio llwyfan o'r enw **Teams** i'r tiwtorialau a'r gweminarau. Mae'r llwyfan yn rhan o gyfres rhaglenni Office 365 a gallwch ei gyrraedd trwy eich e-bost Aber. Nid yw hyn yn golygu y byddwch yn cael eich tiwtorial gyda phawb arall; dydy e ddim ond yn enw ar y llwyfan. Ceir cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio Teams yn yr adran **Cymorth i Fyfyrrwyr** ar Blackboard ac yn y llawlyfr hwn.

Gan eich bod yn fyfyrwr Aber gallwch hefyd ddefnyddio **Box of Broadcasts** sy'n adnodd cwbl ryfeddol o hen raglenni radio a theledu. Mae iddo offeryn chwilio yn ogystal â chalendar o restrau. Mae hynny'n arbennig o ddefnyddiol. Unwaith eto, gallwch fynd ato trwy deipio enw'r sefydliad (Prifysgol Aberystwyth) ac yna defnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair Prifysgol Aberystwyth i fewngofnodi. [Dyma'r ddolen gyswllt at Box of Broadcasts](#), ond bydd rhagor o wybodaeth o dan **Cymorth i Fyfyrrwyr**.

Mae hyn yn adnodd gwerthfawr sydd wedi'i gynnwys yn ffi'r cwrs, felly cofiwch ei ddefnyddio.

Popeth am asesu

Rydych yn cymryd modiwl Addysg Uwch wedi'i achredu, sy'n rhan o Dystysgrif Addysg Uwch. Fe allwch serch hynny, ddewis cymryd ein cyrsiau yn unedau annibynnol a pheidio ag astudio am y Dystysgrif gyfan. Yn rhan o'r cwrs, mae'n rhaid i ni eich asesu er mwyn gweld pa mor effeithiol mae'r dysgu wedi bod. Rydyn ni'n hoffi rhoi adborth rheolaidd fel y gallwch elwa o'r profiad a'r cyfarwyddyd a gewch ar y cwrs.

Mae gan bob rhaglen ddull ychydig yn wahanol o gasglu gwaith myfyrrwyr. Ar rai modiwlau, bydd angen i chi gyflwyno eich gwaith yn electronig trwy Blackboard. Bydd modiwlau eraill yn wahanol. Cewch gyfarwyddyd am hyn gan eich tiwtor yn uned gyntaf Blackboard. Yn y rhaglen Gelf, enw'r uned yw 'Cyn i ni ddechrau' ac mewn modiwlau eraill caiff ei alw'n 'Cyflwyniad'.

Enw llwyfan y Brifysgol ar gyfer cyflwyno gwaith yn electronig yw Turnitin.

Turnitin

Defnyddir Turnitin i fodiwlau'r Dyniaethau, a Gwyddoniaeth a Gwyddorau Cymdeithasol. Nid yw'n cael ei ddefnyddio yn y rhaglen gelf hyd yn hyn.

Asesu

Bydd dyddiad cau cyflwyno eich asesiad a disgrifiad o'r hyn sydd angen ei wneud ar gyfer yr asesiad i'w gweld yn yr uned gyntaf yn Blackboard. I rai modiwlau bydd o dan y tab Asesu ac Adborth. Mae gan bob modiwl ddyddiadau dechrau a diwedd traddodiadol a dyddiadau cau i gyflwyno gwaith. [Mae gennym hefyd Bolisi Cyflwyno'n Hwyr, sydd i'w weld fan hyn](#).

Crynhoi gwaith i fodiwlau Celf

Dyfeisiwyd eich dysgu gan eich tiwtor, felly rydych yn cynyddu eich sgiliau o uned i uned. Ar ôl bob uned, gofynnwn i chi anfon ffeil Word o waith cysylltiedig â'r dasg at eich tiwtor, sy'n cynnwys peth ysgrifennu myfyrgar; mae hyn fel arfer yn rhan o bwysiad asesiad y modiwl. Trwy gyflwyno gwaith i'ch tiwtor yn rheolaidd, gallwch ymateb i adborth, a gallech gael gwell marciau oherwydd hynny. Rydyn ni'n galw hyn yn 'adborth llif' (*trickle feedback*); nid yw wedi ei farcio ond fe gewch ragborth (*feedforward*), fel yr ydyn ni'n ei alw, yn rheolaidd. Rydyn ni wedi sylwi bod safon gwaith ein myfyrrwyr ar-lein yn well na myfyrrwyr sy'n dysgu wyneb yn wyneb. Bu hyn yn ddatblygiad diddorol. Y rheswm yw bod myfyrrwyr yn gallu gwyllo pob fideo amryw weithiau.

Bydd modiwlau hanes celf yn gofyn am ddetholiad neu ddrafft, er mwyn ichi gael adborth cyn eich cyflwyniad terfynol; cofiwch fanteisio ar y gwasanaeth hwn.

Mae nifer o'r cyrsiau yn para'n hirach na modiwlau y byddech yn eu hastudio yn y dull wyneb yn wyneb traddodiadol. Y rheswm yw ein bod yn ymwybodol eich bod yn gorfod ymdopi ag ymrwymadau eraill ochr yn ochr â'ch astudiaethau. Cofiwch gadw mewn cysylltiad â'ch tiwtor os ydych chi'n cael trafferthion; efallai y gallwn eich cynorthwyo i gadw at ddyddiadau cau'r cwrs.

Sut ydyn ni'n asesu?

Wedi'u hymgorffori'n rhan o **Cymorth i Fyfyrywyr** neu **Asesu ac Adborth** ar Blackboard mae'r meini prawf a ddefnyddiwn i asesu eich gwaith. Yn yr adrannau hyn mae hefyd llawer o wybodaeth ddefnyddiol arall i fod o gymorth gyda'ch aseiniadau. Gallech ddechrau ar dasg fyfyrion ac amcanu pa farc y gallech ei gael cyn i'r tiwtor ei asesu. Os yw'r modiwl wedi ei gynnal fwy nag unwaith, efallai y bydd yno enghreifftiau o draethodau neu waith myfyriwr hyd yn oed.

Ar ôl i'r tiwtor asesu eich gwaith i gyd a rhoi adborth, bydd safonwr annibynnol yn adolygu'r marc a'r adborth i sicrhau bod y marcio'n gyson. Ar ben hyn, rydyn ni'n cael ymweliad gan Arholwr Allanol unwaith y flwyddyn, ym mis Medi. Maent hefyd yn archwilio ein prosesau ac yn cymharu eich gwaith chi â gwaith myfyrywyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch eraill.

Ein trefn Sicrhau Ansawdd

Unwaith y flwyddyn, ar ôl i chi basio modiwl cewch drawsgrifiad gan y Brifysgol, ym mis Hydref, ar ôl i bopeth gael ei gymeradwyo a'i ddilysu. Mae'n bwysig cadw'r papur hwn yn ddiogel yn rhywle am ei fod yn olrhain eich cynnydd dros y blynyddoedd. Os yw eich cwrs yn rhedeg dros y flwyddyn academaidd arferol, mis Awst i fis Awst, bydd eich cwrs i'w weld yn nhrawsgrifiad y flwyddyn ganlynol. Cewch rybudd am hyn gan eich tiwtor.

Mathau o asesu

Mae gennym sawl dull gwahanol o asesu, ond dydyn ni ddim yn cynnal arholiadau - dydyn ni ddim yn credu ynddyn nhw!

Efallai y gofynnir i chi am un o'r canlynol: traethawd byr, prosiect, ymarferiad astudio cymharol, dylunio poster academaidd, astudiaeth achos, asesiad llafar, sain neu ysgrifenedig, llyfr nodiadau maes, dyddiaduron myfyrgar, blog, log, recordiad Panopto byr, dadansoddi data, llinell amser, dadansoddiad cymharol, portffolio, cwis, adolygiad, erthygl, neu fwy!

Mae'r rhain yn datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau, agweddau a fydd yn ddefnyddiol i weithlu'r byd sydd ohoni.

Adborth

Os ydych yn astudio Celf, cewch adborth gan eich tiwtor ar ôl bob uned; sef adborth llif. Caiff hyn ei grynhoi gan eich tiwtor ac ni fydd yn cael ei asesu / raddio tan y diwedd. Defnyddir hyn i'ch cynorthwyo i ennill marc terfynol uwch. Mewn pynciau eraill, rhoddir adborth ar ôl mân dasgau, trwy fforymau trafod neu ddyddiaduron personol, ac yn dilyn cyflwyno asesiadau.

Eich Adborth chi i ni.

Rydyn ni wrth ein bodd yn cael adborth!

Fe welwch fod gennych yn eich modiwl Blackboard ddolenni at ddau arolwg. Bydd un pan fyddwch wedi cyrraedd hanner ffordd trwy'r modiwl, a'r llall ar y diwedd, ac yn hwn byddwch yn cloriannu'n grynodol.

Byddwn ni'n darllen y rhain am ein bod eisiau gwella profiad y myfyriwr. Rhowch amser i'w llenwi i ni. Mae'n arolwg un-clic hawdd.

Pe byddech yn wynebu unrhyw faterion difrifol gallwch gysylltu â chydlynnydd eich pwnc:

Celf a Dylunio: Alison Pierse chp@aber.ac.uk (cytundeb rhan-amser)

Ieithoedd Modern: Antonio aob@aber.ac.uk

Y Dyniaethau: Calista Williams caw52@aber.ac.uk (cytundeb rhan-amser)

Ecoleg: Calista Williams caw52@aber.ac.uk (cytundeb rhan-amser)

Mae gennym hefyd **Bwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr**.

Gellir hefyd gysylltu â myfyrwyr yn eich maes chi.

Candy Devina Bedworth	Celf a Dylunio	cdb13@aber.ac.uk
Annette Williamson	Celf a Dylunio	acw6@aber.ac.uk .
Phill Bowker	Y Dyniaethau	bowker804@btinternet.com
Harry Rogers	Y Dyniaethau	harriboy@live.co.uk
Marin Berisa	Ieithoedd	mab156@aber.ac.uk
Fiona Draper	Gwyddoniaeth	fjd2@aber.ac.uk
Bob Jacques	Gwyddoniaeth	rgj2@aber.ac.uk

Mae Cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor i'w cael yn:

<https://www.aber.ac.uk/cy/lifelong-learning/virtual-student-centre/>

Mae'r ganolfan rithiol hon yn rhywle i droi ati i gael pob math o wybodaeth. Os ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys rhywbeth, rhowch wybod i aob@aber.ac.uk.

Materion Technegol

Manylion am Teams

Sut i ddefnyddio Microsoft Teams

Yn yr un modd â Blackboard, gallwch ddefnyddio [Teams ar-lein trwy glicio fan hyn](#) a defnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair myfyriwr Prifysgol Aberystwyth i fewngofnodi. Er nad yw'n hanfodol, argymhellwn eich bod yn lawrlwytho'r feddalwedd Microsoft Teams i'ch bwrdd gwaith. Ar ôl mewngofnodi, gallwch wneud hynny o hafan Microsoft Teams. Cliciwch ar y cylch yn y gornel dde ar frig y sgrin a dewiswch **Lawr lwytho'r Ap Pen desg/Download the Desktop App**. Os oes cyfarfod ar-lein wedi'i drefnu gan eich tiwtor fe gewch e-bost i'ch cyfrif e-bost prifysgol a fydd yn cynnwys dolen, a gallwch glicio ar hon i ymuno â'r cyfarfod. Neu, fel arall, os ewch i'ch **Calendr** yn Microsoft Teams, sydd ar ochr chwith y sgrin, fe welwch fotwm **Ymuno/Join** wrth ymyl y cyfarfod ychydig cyn iddo ddechrau, a gallwch glicio ar hwn Os nad ydych wedi defnyddio Microsoft Teams o'r blaen, byddwn i'n argymhell gwyllo'r [fideo hwn sy'n para munud](#) i wybod beth i'w ddisgwyl.

[Beth yw Microsoft Teams?](#)

[Sut mae defnyddio Microsoft Teams ar fy nyfais symudol?](#)

[Sut ydw i'n ymuno â chyfarfod Teams?](#)

[Sut ydw i'n defnyddio'r adnodd sgwrsio \(chat\) yn Teams?](#)

Defnyddio Turnitin

Hwn yw ein llwyfan i gyflwyno gwaith yn electronig.

Nid yw pob pwnc yn ei ddefnyddio. Cewch eich cyfarwyddo gan eich tiwtor.

Pwysig: Rydyn ni'n argymhell i fyfyrwyr ddefnyddio [Firefox](#) neu [Chrome](#) wrth gyflwyno aseiniadau.

Mae manau cyflwyno aseiniadau Turnitin i'w gweld o dan **Asesu ac Adborth** ar Blackboard

1. Cliciwch ar y ddolen **Gweld / Cwblhau (View/ Complete)** yn eich aseiniad.
2. Bydd eich aseiniad wedi'i restru ar y dudalen. Cliciwch ar **Cyflwyno / Submit**.
3. Llenwch y manylion angenrheidiol.
4. Cliciwch ar **Beth sydd ei angen i uwch-lwytho (What are the requirements for an upload)** i weld y canllawiau i lwytho'r ffeil.
5. Dewiswch y ffeil a chlicio **Llwytho / Upload**.
6. Gwiriwch y testun yr ydych wedi'i gyflwyno unwaith eto yna cliciwch **Cyflwyno / Submit**, neu **Dychwelyd / Return**, os oes angen llwytho ffeil wahanol.
7. Mae eich aseiniad nawr wedi ei gyflwyno ac fe welwch eich derbynneb ddigidol.
8. I fynd nôl i ardal eich aseiniad yn Blackboard, cliciwch ar y dolenni ar frig y sgrin.

Cwestiynau Cyffredin

Pam na allaf fynd i Blackboard yn fy mhorwr arferol?

Ydych chi'n defnyddio Safari, Internet Explorer neu Microsoft Edge? Rydyn ni'n argymhell defnyddio **Google Chrome** neu **Mozilla Firefox** wrth ddefnyddio Blackboard ac yn enwedig wrth gyflwyno aseiniadau.

Pam ydw i'n cael trafferth i ddefnyddio Blackboard ar dabled neu ffôn?

Rydym yn argymhell ichi lawr-lwytho'r ap Blackboard. Mae hwn i'w gael yn iOS, Android, a Windows. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'i lawr-lwytho, [cliciwch fan hyn](#).

Pam mae'r ddewislen ochr yn Blackboard wedi diflannu?

Mae dewislen ochr Blackboard fel cwpwrdd ffeilio sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ond mae modd ei chuddio. Ewch â'ch cyrchwr dros ymyl chwith y dudalen ac fe ddaw saeth i'r golwg yn cyfeirio tua'r chwith, a gallwch glicio ar hon. Bydd y ddewislen ochr yn agor.

Rydw i'n aelod o staff Prifysgol Aberystwyth ac ni allaf weld fy nghwrs wedi'i restru ar Blackboard.

Hyd yn oed os ydych yn aelod o staff sydd â chyfrif staff PA, mae angen ichi gael cyfrif myfyriwr ar wahân i gyrraedd eich cwrs. Fe gewch fewn-gofnod a chyfrif e-bost myfyriwr er mwyn mynd i'ch cwrs ar Blackboard a chysylltu â'ch tiwtor.

Beth yw Microsoft Teams?

Teams yw'r offeryn ar-lein a ddefnyddiwn i siarad â'n myfyrwyr ar gyfer tiwtorialau un i un neu sesiynau addysgu byw ar-lein (mae leithoedd Modern yn defnyddio llwyfan Zoom). Os yw eich *derbyniad yn wael neu'n oriog* wrth ddefnyddio Teams, mae'n gweithio weithiau i ddiffodd y camera a chadw'r sain yn unig. Ceir Cyfarwyddiadau i Teams yn y llawlyfr hwn.

Pa ddeunydd fydda i eu hangen i'r cwrs?

Os ydych yn cofrestru ar gwrs celf, mae'r [llythyr dechrau cwrs](#) yn rhoi amcan bras o gyfanswm pris y deunyddiau y byddwch eu hangen ac yn rhoi rhestr o'r union ddeunyddiau a'r manau lle gallwch eu prynu. Bydd hyn i'w weld hefyd yn uned gyntaf y cwrs.

Sut ydw i'n cysylltu â'm tiwtor a phryd maen nhw ar gael?

Gallwch gysylltu â'ch tiwtor trwy e-bost. Mae pob tiwtor yn gweithio'n rhan amser i'r Brifysgol ac mae ambell un yn gweithio i gyflogwyr eraill hefyd. Fe welwch oriau swyddfa tiwtoriaid y brifysgol o dan **Cysylltiadau** yn Blackboard a'r adegau y gallant ateb eich negeseuon e-bost.

Pam ddylwn i gwblhau'r aseiniadau?

Mae ein haseiniadau yn eich cynorthwyo i gadarnhau ac atgyfnerthu eich dysgu yn ogystal â myfyrio ar y gwaith a wnaethoch. Fe fyddwch hefyd yn gweld eich bod yn eu mwynhau, am

eich bod yn gallu dangos datblygiad eich dysgu a'ch sgiliau. Caiff ein rhaglen ei noddi gan Lywodraeth Cymru a gallwn elwa ar gyllid arbennig os yw'r myfyrwyr yn cwblhau asesiadau'r cyrsiau. Mae'r cyllid yn ein cynorthwyo i gynnal ein rhaglen a chadw ein cyrsiau ar lefel y gellir eu fforddio.

Rhoi trefn ar fy astudiaethau

Rydym yn argymhell eich bod yn neilltuo peth amser yn yr wythnos i edrych yn rheolaidd ar y deunyddiau dysgu yn yr unedau dysgu wrth eich pwysau cam-wrth-gam. Rydym wedi cynllunio'r cyrsiau i chi allu mynd atynt pan fydd yn gyfleus i chi, ond rydyn ni'n argymhell dysgu rheolaidd, fesul ychydig. Yn achos cyrsiau leithoedd Modern (Zoom) a Sgiliau Cynghori (Teams), cynhelir dosbarthiadau wythnosol yn fyw ar-lein.

Os oes modd, gwnewch le yn eich cartref ddim ond ar gyfer dysgu. Ydy e'n lle cyfforddus, ydy'r gadair yn y safle cywir? Mae amgylchfyd da a chynnes yn ei gwneud yn haws canolbwyntio ar y dysgu.

A yw'r cyrsiau Addysg Uwch ar-lein wedi'u hachredu?

Ydyn, dyfarnwyd Lefel Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol i'r holl gyrsiau. Fe allwch ddewis astudio ein cyrsiau yn unedau annibynnol neu weithio tuag at un o'n Tystysgrifau Addysg Uwch. Mae ein cyrsiau hefyd yn gallu cyfrif tuag at flwyddyn gyntaf gradd gyda phartner sefydliad. Gofynnwch i'r Cydlynnydd Pwnc perthnasol i gael rhagor o wybodaeth.

Beth allaf ei ddisgwyl o adborth eich tiwtor?

Fe ddylai'r adborth a gewch gan eich tiwtor, yn gyntaf, ddangos cryfderau eich gwaith ac yna roi cyfarwyddyd ynglŷn â'r hyn i'w wneud i adeiladu ar y cryfderau hyn. Bydd y tiwtor hefyd yn nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella. Gallent dynnu sylw at adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol i chi a rhoi awgrymiadau i'w defnyddio mewn aseiniadau yn y dyfodol. Gofynnir i chi gwblhau prosiect hunan gyfeiriedig sy'n dangos y cwbl a ddysgoch ar y cwrs. Y nod yw eich bod chi a'r tiwtor yn penderfynu ar y thema rhyngoch eich gilydd.

Rhestr Termau

Rydyn ni'n defnyddio llawer o fyrfoddau a jargon. Os nad ydych wedi astudio ers tro gall fod yn ddryslyd ar y dechrau, felly dyma rai esboniadau.

Cyhoeddiadau: trefn a llwyfan a ddefnyddir pan fydd y tiwtor yn cysylltu â chi i roi newyddion ac fe fydd yn dod i fewnflwch eich e-bost. Felly, mae'n bwysig ichi gadw golwg ar y mewnflwch. Byddem yn argymhell ichi greu llwybr byr ar eich pen desg

Aspire: dull mynediad at restr ddarllen modiwl; does dim angen hynny ar rai modiwlau

Blackboard: ein llwyfan Dysgu Rhithiol

Blog: llwyfan cymunedol yn Blackboard fel y gall myfyrwyr rhannu delweddau a sylwadau

Box of Broadcasts: safle allanol sy'n cadw llyfrgell enfawr o raglenni radio a theledu ar gyfer ymchwil

Dysgu cyfunol: bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno ar-lein yn rhannol, ond bydd angen dod i'r campws ar gyfer rhai unedau, er enghraifft astudiaethau maes.

TAU: Tystysgrif Addysg Uwch

Modiwl Craidd: modiwl sy'n orfodol er mwyn cwblhau Tystysgrif Addysg Uwch

Uned Cwrs: uned fach o ddysgu

Credyd: y gair a ddefnyddir i gynrychioli faint o amser sydd ei angen i gwblhau modiwl

5 credyd = 50 awr

10 credyd = 100 awr

20 credyd = 200 awr

Oriau astudio damcaniaethol yw'r rhain, mae rhai myfyrwyr yn gwneud llawer mwy na hynny.

Fframwaith Credydau: Trefn genedlaethol o gymharu lefelau ar draws darparwyr gwahanol. Yn aml cyfeirir at hyn fel NFCQ

Arholwr Allanol: unigolyn o sefydliad arall a benodir i archwilio'r marcio, yr asesu a'r polisïau ac mae'n rhan o'r protocol Sicrhau Ansawdd.

Wyneb yn wyneb: cyrsiau sy'n cael eu darparu yn y dull traddodiadol - nid ar-lein

Adborth: Mae hyn yn cael ei gadw yn Blackboard ar ffurf arolygon, ond rydym hefyd yn rhoi adborth ichi ar eich gwaith.

Rhagborth [feedforward]: Adborth gan diwtoriaid nad yw'n cael ei asesu ond yn eich cynorthwyo â'ch prosiect neu aseiniad terfynol

AU: - Addysg Uwch

GG: mae'r rhain yn dîm o arwyr, sef Gwasanaethau Gwybodaeth. Maen nhw yno i gynorthwyo os cewch drafferth wrth gyrraedd rhannau o Blackboard. Eu cyfeiriad e-bost yw gg@aber.ac.uk. Rydyn ni'n argymhell eich bod yn cymryd sgrin-lun o'r broblem a'i gynnwys yng nghorff y neges e-bost. Bydd hyn yn gymorth iddynt i ddatrys y broblem yn gyflym.

Safonwr: unigolyn annibynnol a benodir i archwilio'r holl asesu ac adborth, er mwyn sicrhau tegwch.

Modiwl: cwrs astudio ar thema.

OneDrive: eich storfa ffeiliau prifysgol lle gallwch gadw eich gwaith. Gallwch hefyd fynd at y storfa trwy eich cyfrif Outlook. Chwiliwch am y 'blwch o sgwariau' yng nghornel chwith uchaf mewnflwch eich e-bost.

Outlook: llwyfan diogel eich e-bost. Mae hwn yn cynnwys Mewnflwch, negeseuon a anfonwyd a negeseuon drafft.

Cyfrinair: yn cysylltu â'ch enw defnyddiwr Aber ond mae angen ei newid bob blwyddyn. Fe gewch 8 neges atgoffa am hyn felly peidiwch â'u hanwybyddu neu cewch eich cloi allan o'r system!

Panopto: llwyfan i diwtoriaid a myfyrwyr ar gyfer recordio fideo neu sain.

Sgrin-lun: Tynnu llun o sgrin y cyfrifiadur i'w ddangos i rywun. Ar gyfrifiadur Dell, y ddwy fysell yw'r ddelwedd ffenest a PRTSC, ar ochr uchaf y bysellwrdd ar yr ochr dde.

Adborth Crynodol: yr adborth terfynol a gewch gan eich tiwtor.

Trawsgrifiad: log o'r cyrsiau yr ydych wedi'u pasio'n llwyddiannus yn y flwyddyn academaidd.

Turnitin: llwyfan electronig ar gyfer cyflwyno aseiniadau mewn rhai pynciau.

Adborth Ilif: adborth personol rheolaidd ar eich gwaith nad yw'n cael ei asesu.

Teams: y pecyn tiwtorial sy'n rhan o'ch e-bost Outlook. Chwiliwch am y 'blwch o sgwariau' yng nghornel chwith uchaf mewnflwch eich e-bost.

Tiwtorial: cyfle i gwrdd â'ch tiwtor a thrafod eich datblygiad a'ch llwybr dysgu.

Enw defnyddiwr: eich porth unigryw i gael mynediad. Fel arfer mae iddo dair llythyren a rhai rhifau. Cadwch hwn yn ddiogel, eich pasbort i ddysgu.

ADRh [VLE]: Yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir - Blackboard

Gweminar: llwyfan lle gall myfyrwyr rannu gwybodaeth a sgwrsio.

Beth mae ein myfyrwyr yn ei ddweud?

'Rydw i wedi mwynhau'r cwrs yn ogystal â'ch dysgu chi yn eithriadol - yn bendant mae wedi fy ysbrydoli i barhau ymhellach gyda thechnegau dyfrlliw a chyrsgiau ar-lein newydd.'

'Diolch. Wedi fy ysbrydoli i wneud mwy yn bendant.'

'Llawer o ddiolch am eich cymorth a'ch awgrymiadau ar hyd y ffordd. Rydw i wedi penderfynu cofrestru ar y cwrs Pensil ym mis Medi felly edrychaf ymlaen at eich gweld eto bryd hynny.'

'Rydw i wir wedi mwynhau cynnwys y cwrs hwn. Diolch, bu'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig â dolen at fideo yn ddefnyddiol iawn.'

'Mae'r fideo a'r darluniau wedi bod o gymorth mawr, ac yn onest, gallwn fynd ymlaen ac ymlaen am y gwahanol ffyrdd mae fy nghelf wedi gwella oherwydd y dosbarth hwn. Ond, yn bwysicach na dim, gwnaeth y dosbarth i mi ystyried bod dyfrlliw a darlunio nid yn unig yn bleser hamdden ond yn sgil broffesiynol.'

'O'r diwrnod cyntaf y darllenais y manylion mae'r cwrs wedi taro tant i mi, ac fe wyddwn fod yn rhaid i mi ei gymryd. Rydw i mor ddiolchgar i mi wneud, bu o fudd arbennig i mi, ac, ers mis Hydref, mae wedi fy nghynorthwyo i eistedd yn llonydd am funud i ystyried beth rydw i'n ei wneud, a pham, yr hyn rydw i'n wneud yn anghywir a sut y galla i symud ymlaen.'

'Rwyf felly wedi trin y cwrs yn gyfle i fyfyrion ac ystyried yn hytrach na dechrau o'r dechrau, a symud ymlaen gan gymryd egwyl nawr ac yn y man i fyfyrion fel yr awgrymir. Rydw i wedi mwynhau'r fformat hyblyg o recordiadau am fy mod i'n gallu gwranddo, ailwranddo, aros ac ailddechrau wrth fy mhwsau. Rydw i wedi mwynhau cael negeseuon atgoffa i ddilyn dolenni at sgysiau llwyfan Cynadleddau TED ar-lein a chrynodebau llyfrau.'

'Yn yr e-bost hwn, rwy'n anfon fy ymgais gyntaf ar ddarlunio. Mae wedi bod yn ymarfer anodd i mi am nad oes gen i brofiad o gwbl o ddarlunio ond rydw i wedi mwynhau pob eiliad!'